

ADEILADU CAPASITI YNG NGHYMUNEDAU ARFORDIROL

GWEITHDAI TYSTIOLAETH I RANDDEILIAID

CRYNODEB GWEITHREDOL

Dr Sophie Wynne-Jones ac Ann Humble

DULL O WEITHREDU

Gwnaeth Is-adran y Môr a Physgodfeydd Llywodraeth Cymru gomisiynu Uned Tystiolaeth Strategol Adran yr Amgylchedd a Materion Gwledig i gynnal cyfres o weithdai i randdeiliaid i lywio eu cynlluniau i gefnogi cymunedau arfordirol yn y dyfodol. Nod y cymorth arfaethedig yw adeiladu capasiti i sicrhau canlyniadau twf cynaliadwy ac adfer natur (manylion isod) yn unol â'r ymrwymadau yn y Rhaglen Lywodraethu. Wrth ddweud adeiladu capasiti rydym yn cyfeirio at y sgiliau, y cysylltiadau a'r ffactorau ategol eraill sy'n galluogi pobl i sicrhau'r canlyniadau a ddymunir.

Twf cynaliadwy	Adfer natur
<ul style="list-style-type: none">• dyframaethu cynaliadwy	<ul style="list-style-type: none">• mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng natur
<ul style="list-style-type: none">• cadwyni cyflenwi bwyd môr lleol	<ul style="list-style-type: none">• rheoli'r amgylchedd morol
<ul style="list-style-type: none">• twristiaeth a hamdden	<ul style="list-style-type: none">• carbon glas
<ul style="list-style-type: none">• cyflawni 'Amcanion Pysgodfeydd'	<ul style="list-style-type: none">• dealltwriaeth y cyhoedd o faterion morol

Cynhaliwyd dau weithdy ym mis Medi 2022, gyda chyfanswm o 29 o randdeiliaid morol ac arfordirol o sefydliadau ledled Cymru. Cafodd y gweithdai eu strwythuro i gasglu profiadau cyfranogwyr o brosiectau blaenorol, fel y gallem gofnodi'r prif wersi a ddysgwyd. Roedd hyn mewn perthynas â llwyddiannau h.y. 'yr hyn sy'n gweithio'n dda', ond hefyd i ddeall anghenion ychwanegol a allai godi yn y dyfodol a chyfyngiadau unrhyw ddulliau presennol/blaenorol. Cafodd y gweithdai eu strwythuro fel a ganlyn:

1. Mapio'r Ddarpariaeth Bresennol
2. Deall Llwyddiannau
3. Anghenion Ychwanegol
4. Edrych tua'r Dyfodol

CANFYDDIADAU ALLWEDDOL:

Lluniwyd **rhestr fer o ddulliau allweddol a nodweddion ar gyfer prosiectau** sy'n adeiladu capasiti yn llwyddiannus mewn cymunedau arfordirol, gan ddefnyddio'r dysgu a rannwyd yn ystod y ddau weithdy. Er bod gan y rhai a gymerodd ran yn y gweithdy wedi cael amrediad o brofiadau, roedd consensws clir rhwng bawb fod y pum pwynt canlynol yn bwysig er mwyn sicrhau llwyddiant. Felly, rydym yn argymhell bod y dulliau a'r nodweddion hyn yn cael eu ceisio a'u cefnogi'n weithredol drwy ymyriadau llywodraeth ac ymyriadau ehangach. Nid ydynt wedi cael eu rhestru yn ôl blaenoriaeth.

DULLIAU ALLWEDDOL

1. **Sicrhau canlyniadau drwy weithio ar draws ffiniau a defnyddio dull cydgysylltiedig o ddatrys problemau.** Mae hyn yn cynnwys gweithio ar draws ffiniau ar y môr a'r tir a ffiniau gweinyddol, gan nodi'r holl gysylltiadau a rhanddeiliaid sy'n berthnasol er mwyn ystyried y mater(ion) dan sylw.
2. **Sicrhau ymdeimlad o gyfranogi ar y cyd, drwy fod yn gynhwysol ac ymateb i'r anghenion a nodir mewn cymunedau.** Mae hyn yn gofyn am ymddiriedaeth a phrosesau democrataidd, yn ogystal â chyfathrebu da. Mae sicrhau cynrychiolaeth amrywiol hefyd yn allweddol. Mae gweithio gydag arweinwyr cymunedol yn bwysig yn hyn o beth, ond yr un mor bwysig yw cefnogi diwylliant ehangach o wirfoddoli ac ymgysylltu i sicrhau y gall cymunedau gyfranogi'n llawn.
3. **Sicrhau cynaliadwyedd ariannol** drwy galluogi datblygu sgiliau ac arloesi i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd mewn marchnadoedd sy'n dod i'r amlwg. Hefyd, drwy ddefnyddio strwythurau prosiect priodol (e.e. Cwmnïau Buddiannau Cymunedol a meithrin diddordeb mewn prosiectau drwy fuddsoddiadau gan fusnesau a/neu weithgareddau lle mae'r manteision i gyfranogwyr yn amlwg.
4. **Gweithio ar raddfa briodol**, hynny yw yn ddigon bach i gymunedau gymryd rhan, gan sicrhau ymddiriedaeth a perthnasedd iddyn nhw, ond yn cyflawni canlyniadau hanfodol yn unol a'r ymrwymadau yn y Rhaglen Lywodraethu. Er mwyn gwneud hyn, mae angen hwyluso da a strwythurau rhwydweithio da
5. **Cynnal dilyniant rhwng prosiectau** fel y gellir adeiladu ymddiriedaeth gyda rhanddeiliaid a bod dysgu'n cael ei rannu, cynyddu arferion da fel y gallwn ni adeiladu ar brofiadau blaenorol. Mae hyn yn rhoi gwerth i lwyddiannau blaenorol, nid prosiectau arloesi yn unig.

Hefyd cafodd **rhestr estynedig o ganllawiau a chyngor ar gyfer darpar-brosiectau** ei datblygu drwy ymarfer olaf y gweithdai, a oedd yn ceisio syntheseiddio trafodaethau ynghylch yr hyn sy'n gweithio, a beth arall sydd ei angen i sicrhau llwyddiannau wrth edrych tua'r dyfodol. Yn yr un modd â'r rhestr fer, roedd lefel gref

o gonsensws ynghylch y pwyntiau a roddwyd. Mae'r canllawiau estynedig hyn yn darparu dealltwriaeth o'r ffordd fwyaf effeithiol o weithio gyda chymunedau, pa nodweddion i roi blaenoriaeth iddynt yn eich prosiectau ac ar gyfer eich staff, pwy sydd angen cymryd rhan, pa gymorth all fod ei angen a sut i fonitro a gwerthuso gweithgareddau mewn modd defnyddiol. Nid yw'r cyngor hwn ar gyfer arweinwyr prosiectau'r dyfodol yn unig, ond bydd hefyd yn addas ar gyfer cyllidwyr a llywodraeth ynghylch yr hyn y dylent ei annog a'i gefnogi.

CYNGOR AR GYFER PROSIECTAU ADEILADAU CAPASITI

1. Pa ddulliau sy'n sicrhau llwyddiant prosiectau?

Dilyniant, i alluogi cymunedau i ddatblygu ymddiriedaeth mewn sefydliadau, gan greu ymdeimlad o ymrwymiad tymor hwy, ac adeiladu perthynas ag unigolion (e.e. staff prosiect). Dylid parhau â'r 'hyn sy'n gweithio', gan ei rannu a'i gynyddu, yn hytrach na phrosiectau sy'n wastad yn ceisio 'arloesi'.

Strwythurau a systemau ar waith fel nad yw prosiectau'n cael eu gwneud yn ysbeidiol neu fesul tipyn. Er enghraifft, byrddau rheoli sy'n gyfrifol am grwpiau llywio prosiectau gwahanol (fel Ardaloedd Morol Gwarchoddedig a Phartneriaeth Aber Afon Hafren) a/neu Gwmni Buddiannau Cymunedol sy'n gweithredu mwy fel busnesau ac yn parhau y tu hwnt i brosiectau unigol (e.e. Fforwm Arfordir Sir Benfro).

'Cryfder mewn niferoedd' – gall maint prosiect sicrhau ei fod yn parhau. Er enghraifft, bod â llawer o wahanol weithgareddau/partneriaid ar waith er mwyn sicrhau ei fod yn parhau, yn enwedig pan fydd y rhain yn cael eu gefnogi gan ffrydiau incwm gwahanol. Gall rhwydweithiau amrywiol gefnogi ei gilydd hefyd, gyda mathau gwahanol o sefydliadau'n ymgymryd â rolau a gweithgareddau gwahanol sy'n gyd-fynd orau â'u galluoedd. Mae creu 'ecosystem' o brosiectau cysylltiedig yn gallu bod yn ddefnyddiol hefyd. Mewn modd tebyg, os yw llawer o bobl yn cymryd rhan mae prosiectau'n magu momentwm, gan y bydd pobl eisiau cymryd rhan oherwydd y bwrlwm cymdeithasol.

Defnyddio strwythurau prosiect hunangynaliadwy, fel Cwmnïau Buddiannau Cymunedol. Gyda Chwmnïau Buddiannau Cymunedol, mae prosiectau'n cael eu rhedeg gan gyflogeion sy'n derbyn tâl, gan ddiogelu eu hymrwymiad a'u capasiti, a galluogi cyflogi staff newydd os oes angen. Mae hyn yn lleihau dibynnu ar lwyddiannau un neu ddau o unigolion, yn enwedig os ydynt yn wirfoddolwyr. Mae hyn yn cefnogi'r dilyniant a nodir uchod.

Gweithgareddau hunangynaliadwy yw'r rhai lle mae gan gyfranogwyr fuddiannau, naill ai ar sail diddordeb mewn gweithgareddau neu ariannol. Mae pobl yn parhau i wneud pethau maent yn hoffi eu gwneud (h.y. sy'n llawn hwyl, yn gymdeithasol), pan fyddant yn gweld canlyniadau, neu os bydd o fudd iddynt (e.e. gwyddoniaeth dinasyddion, dysgu am eu darn o arfordir; bodloni angen craidd fel mynediad i'r anabl; arwain teithiau/gweithgareddau cadwraeth).

Mae **gweithgareddau sy'n manteisio ar farchnadoedd sy'n dod i'r amlwg/cyfleoedd ar gyfer arloesi**, waeth pa mor fach ydynt, hefyd yn gallu bod yn allweddol i fod yn hunangynaliadwy. Gall cysylltu buddiannau busnesau bach a/neu fentrau cymdeithasol

fod yn ddefnyddiol yn hyn y beth. Mae cynnwys rhanddeiliaid sydd â sgiliau busnes/datblygu yn gallu cefnogi'r mathau hyn o weithgareddau. Hefyd gall cyllid sbarduno/cyfalaf ar gyfer seilwaith allweddol alluogi busnesau newydd/gwella busnesau.

Prosiectau sydd â phresenoldeb mewn cymuned. Gall cysylltiadau un-i-un fod yn werthfawr iawn ar gyfer rhai pobl, a gall fod yn fwy cynhwysol ac effeithiol na chyfarfodydd cyhoeddus sy'n gallu mynd yn 'wleidyddol'. Mae angen adnoddau ar gyfer hyn. Gall llefarwyr hygyrch yn y gymuned hefyd ddarparu sianeli cyfathrebu clir (ac uniongyrchol), gan fynd i'r afael â chamwybodaeth, e.e. tybiaethau ac ofn ynghylch beth mae prosiect yn ei olygu.

Mae **hwyluswyr a chyfryngwyr** rhwng cymunedau a grwpiau eraill/cyllidwyr/llywodraeth yn bwysig, am eu bod yn galluogi cysylltiadau rhwng buddiannau/cyfleoedd ar lawr gwlad ac amcanion strategol.

Dathlu llwyddiannau yn gyhoeddus ar draws amrediad o gyfryngau/sianeli. Mae gan bobl ddiddordeb yn yr hyn mae prosiectau eraill yn ei wneud felly mae rhannu'r wybodaeth hon yn arfer da.

2. Pwy mae angen eu cynnwys wrth edrych tua'r dyfodol?

Mae defnyddio strwythurau a phrosesau wedi'u sefydlu'n dda i gynnwys pobl yn gweithio'n dda, gan ddatblygu cysylltiadau â phrosiect a diddordeb ynddo – er enghraifft drwy gymdeithasau cymunedol, clybiau ieuenctid a grwpiau gwirfoddoli.

Mae prosiectau da'n siarad ag amrediad o bobl, gan gynnwys amrediad o ddemograffigau. Mae'n bwysig ystyried amrywiaeth y gymuned a sicrhau ei bod yn cael ei hadlewyrchu mewn prosiectau. Dim ond drwy ystyried barn pawb wrth ddatblygu prosiect y mae proses ddemocrataidd yn cael ei sicrhau.

Dulliau a arweinir gan gymunedau sy'n dechrau ar lawr gwlad yw'r dulliau a ffefrir ar gyfer datblygu prosiectau. Gall dulliau sy'n dechrau ar lefel uchel weithio, ond mae angen i staff weithio gyda phobl mewn ffordd ystyrlon, ac mae angen gwneud mwy nag ymgynghori yn unig – mae angen cydgyhyrchu'r prosiect lle bynnag y bo modd.

Mae **gweithio ar raddfa sy'n briodol ac yn ystyrlon** i'r canlyniad a ddymunir yn bwysig, yn hytrach na gweithio i ffiniau gweinyddol. Mae gweithio ar lefel buddiannau cymunedol yr un mor bwysig, gan sianelu brwdfrydedd sydd eisoes yn bodoli yn hytrach na chyflwyno amcanion strategol. Gall hwyluswyr da gysylltu â'r rhain yn ôl yr angen. Mae hyn yn golygu meddu ar yr hyblygrwydd i ymateb i'r hyn sydd ei angen, yn hytrach na chael eich rheoli gan 'gronfa'. Mae angen i brosiectau olygu rhywbeth i'r gymuned a'r lle.

Mae **arweinwyr cymunedol yn allweddol i ymgysylltu â'r gymuned ehangach**, a gallant alluogi gweithgareddau 'hunangynaliadwy'. Mae'n bwysig nodi, hwyluso a gweithio gyda'r unigolion hyn. Nid ydynt bob amser mewn swyddi lefel uchel ffurfiol ac nid oes ganddynt bob amser hanes y gellir ei ddangos. Gall arweinwyr newydd ddod i'r amlwg, yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Felly mae angen rhannu prosiectau a galwadau cyllid yn helaeth.

Mae gwirfoddoli'n ymrwymiad ac mae angen ei gefnogi/cydnabod er mwyn sicrhau y gellir cynnal gweithgareddau cymunedol. Gallai busnesau/cyflogwyr gefnogi hyn er mwyn gwella gwirfoddoli yn y gymuned?

Mae angen i bobl adnabod swyddogion prosiect yn dda ac ymddiried ynddynt er mwyn iddynt fod yn llwyddiannus, ac mae hyn yn cymryd amser. Yn ddelfrydol na ddylent fod wedi'u cysylltu ag unrhyw fuddiannau personol.

Mae rhanddeiliaid yn teimlo nad yw'n fuddiol cystadlu am gyllid yn erbyn pobl a ddylai gydweithio â nhw, ac yn hytrach maent am geisio adeiladu partneriaethau.

Bydd prosiectau da'n sicrhau dulliau cyfannol, sy'n dod at ei gilydd pan fydd hynny'n briodol ar gyfer y mater o dan sylw e.e. cysylltu prosiectau ar y môr a'r tir neu weithio ar draws ffiniau gweinyddol/gwleidyddol. Er mwyn bod yn effeithiol, rhaid inni gysylltu â phawb sy'n cael effaith. Er enghraifft, mae angen i'r sector twristiaeth gymryd rhan fwy, gan nad yw'n glir a ydynt yn deall eu heffaith ar ecosystemau morol.

Ystyried pa sgiliau a nodweddion sydd eu hangen ar brosiect a sut i gael mynediad at y rhain. Cynnwys rhanddeiliaid perthnasol i hwyluso hyn e.e. ymddiriedolaethau datblygu/arweinwyr busnes, cwmnïau ynni adnewyddadwy, neu brifysgolion ar gyfer mewnbwn technegol. Gall hyn helpu prosiectau i ddod yn hunangynaliadwy.

3. Pa gymorth sydd ei angen ar brosiectau/rhanddeiliaid?

Mae ymrwymiad tymor hir i gyllido'n bwysig er mwyn llwyddo. Fel arall gall prosiectau golli momentwm, ymddiriedaeth a chysylltiadau â'r gymuned. Mae dilyniant o ran cyllid hefyd yn caniatáu datblygu gyrfaoedd staff ac yn darparu cymhellion iddynt aros – fel arall gallwch golli pobl profiadol.

Hoffai rhanddeiliaid weld cynllun cyllido ar gyfer Cymru gyfan, sy'n amlinellu strategaeth hirdymor y gallwn ei dilyn er mwyn cynllunio eu gweithgareddau. Hoffent hefyd wybod lle mae angen buddsoddiadau ar gyfer prosiectau, er enghraifft drwy gynllun datblygu morol gofodol manwl sy'n dangos yr hyn y mae angen inni greu lle ar ei gyfer yn ein moroedd a pha ardaloedd mae angen eu diogelu/adfer.

Mae cyfnodau cyllido'n eithaf tyn. Byddai rhanddeiliaid yn elwa ar ragor o gynllunio ymlaen llaw/gweld cyfnodau cyllido sydd yn yr arfaeth (gan gysylltu â'r pwynt uchod am strategaeth hirdymor). Mae cyfnodau sy'n gymesur â lefel y cyllid sydd ar gael yr un mor bwysig h.y. mae paratoi cynnig am lefelau uwch o gyllid yn cymryd rhagor o amser.

Mae rhanddeiliaid eisiau prosesau syml sy'n eu galluogi i weithredu syniadau, yn hytrach na boddï mewn gwaith papur. Er enghraifft, prosesau ymgeisio priodol sy'n symlach ar gyfer lefelau llai o gyllid/cyllid sbarduno.

Rhagor o gyfranogi gan gyllidwyr yn ystod prosiectau gan gyllidwyr sydd ar gael ac yn hygyrch – e.e. fyddai rhanddeiliaid yn croesawu sianeli cyfathrebu uniongyrchol.

Mae mynediad at sgiliau, er mwyn manteisio ar seilwaith/cyfleoedd newydd yn bwysig ar gyfer cymunedau arfordirol. Er enghraifft, mae ariannu hyfforddiant sgiliau lleol

ar gyfer y sector ynni wedi bod yn fuddiol. Mae angen galluogi cymunedau i nodi'r sgiliau/cymorth sydd eu hangen arnynt (e.e. mynediad anabl).

Hoffai pobl weld 'Sioe Forol Frenhinol Cymru' – er mwyn galluogi cynyddu ymwybyddiaeth, rhannu dealltwriaeth, cysylltu pobl a gwella llythrennedd morol.

4. Sut y dylid monitro prosiectau?

Bellach defnyddir **allbynnau mwy meddal h.y. mesurau ansoddol**, mewn llawer o brosiectau datblygu gwledig, sy'n darparu enghraifft dda i'w dilyn Er enghraifft, cofnodi ansawdd cyfranogiadau at brosiectau, yn hytrach nag ansawdd, a chanolbwyntio ar hanesion personol. Mae dulliau arloesol hefyd yn ddefnyddiol, e.e ffotograffau o brosiectau cyn ac ôl gweithgaredd i ddangos effaith prosiect.

Gall rhai fesurau meintiol fod yn ddefnyddiol er mwyn darparu strwythur ar gyfer adrodd, ond nid ydynt yn offerynnau manwl. Ni ellir cymharu pob mesur meintiol, mae cyd-destun yn hanfodol – e.e. swyddi wedi'u creu mewn ardal gwledig o'i cymharu â lleoliad trefol. Gall nifer fach o swyddi mewn lleoliad gwledig fod yn bwysig iawn a chael effaith helaeth

Dylai unrhyw arolwg fod yn opsiynol/gwirfoddol (yn enwedig os ydynt yn ymdrin â demograffeg e.e. ethnigrwydd). Dylid ei gwneud yn bersonol – 'sut byddech yn disgrifio eich cefndir?' Ni ddylid casglu gwybodaeth am amrywiaeth os nad ydych yn ei defnyddio – e.e. drwy ymrwymo i wneud newidiadau ar sail y wybodaeth hon.

Mae angen monitro ôl-weithredu er mwyn cofnodi effeithiau parhaus. Ar hyn o bryd mae cyllid ar gyfer monitro'n dod i ben pan fydd prosiect yn dod i ben.

Mae angen sicrhau bod pobl yn dysgu drwy fethiannau. Gall dangosyddion perfformiad allweddol arwain at ofn risgiau, gyda chanfyddiad na allwch fethu o oherwydd y risg o beidio â chael y prosiect nesaf.

Galluogi rhannu a dysgu o arferion da. Byddai lòg/cronfa ddata o brosiectau/adroddiadau yn ddefnyddiol fel adnodd ar gyfer ymgeiswyr ac adolygwyr/archwilwyr i helpu pobl i ddysgu oddi wrth brosiectau eraill, i rannu llwyddiannau a deall beth sy'n digwydd ac yn lle, er mwyn cysylltu â phrosiectau tebyg. Byddai'n ddefnyddiol neilltuo adnoddau ar gyfer rhyngweithio a rhannu, gan nad oes gan bobl yr amser/capasiti i rannu dysgu/gwybodaeth sy'n deillio o brosiectau.

Parhau â'r hyn sy'n gweithio – mae teimlad bod dyraniadau cyllid wedi ffafrio 'dulliau newydd ac arloesol'. Mae rhanddeiliaid yn gwybod beth sy'n gweithio. 'Ond mae angen gwneud llawer mwy ohono.' A fyddai modd addasu mesurau monitro a phrosesau ymgeisio i adlewyrchu hyn?

ADEILADU CAPASITI YNG NGHYMUNEDAU ARFORDIROL

GWEITHDAI TYSTIOLAETH I RHANDDEILIAID

ADRODDIAD LLAWN

CYFLWYNIAD

Gwnaeth Is-adran y Môr a Physgodfeydd Llywodraeth Cymru gomisiynu Uned Tystiolaeth Strategol Adran yr Amgylchedd a Materion Gwledig i gynnal cyfres o weithdai i randdeiliaid i lywio eu cynlluniau i gefnogi cymunedau arfordirol yn y dyfodol. Nod y cymorth arfaethedig yw adeiladu capasiti i sicrhau canlyniadau twf cynaliadwy ac adfer natur (yn Nhabl 1 isod) yn unol â'r ymrwymadau yn y Rhaglen Lywodraethu. Wrth ddweud adeiladu capasiti rydym yn cyfeirio at y sgiliau, y cysylltiadau a'r ffactorau ategol eraill sy'n galluogi pobl i sicrhau'r canlyniadau a ddymunir.

Twf cynaliadwy	Adfer natur
<ul style="list-style-type: none">• dyframaethu cynaliadwy	<ul style="list-style-type: none">• mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng natur
<ul style="list-style-type: none">• cadwyni cyflenwi bwyd môr lleol	<ul style="list-style-type: none">• rheoli'r amgylchedd morol
<ul style="list-style-type: none">• twristiaeth a hamdden	<ul style="list-style-type: none">• carbon glas
<ul style="list-style-type: none">• cyflawni 'Amcanion Pysgodfeydd'	<ul style="list-style-type: none">• dealltwriaeth y cyhoedd o faterion morol

Tabl 1: Amcanion ar gyfer sicrhau Twf Cynaliadwy ac Adfer Natur

Cynhaliwyd dau weithdy ym mis Medi 2022, gyda chyfanswm o 29 o randdeiliaid o amrediad o sefydliadau, fel y dangosir yn Nhabl 2. Cafodd rhanddeiliaid eu gwahodd yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru drwy e-bost. Dewiswyd rhanddeiliaid i'w gwahodd a oedd wedi cymryd rhan mewn Grwpiau Cynghori Gweinidogol presennol a'r rhwydweithiau cysylltiedig, neu randdeiliaid sy'n gysylltiedig â'r grwpiau/rhwydweithiau hyn Er bod amrediad helaeth o fuddiannau wedi cael eu casglu, rydym yn cydnabod bod rhai wedi cael eu colli, a fyddai'n ddymunol er mwyn sicrhau cynrychiolaeth bellach drwy gynnwys rhagor o gynrychiolwyr ar lefel gymuned, gan drigolion ac arweinwyr lleol, swyddogion Ardaloedd Morol Gwarchoddedig, pysgotwyr a maes dyframaethu.

Hysbyswyd cyfranogwyr y byddai eu cyfraniad at y gweithdy yn ddiennw (ni fyddai enwau unigolion yn cael eu rhestru), ond y byddai sefydliadau'n cael rhestru. Roedd y gweithdai yn para am ddwy awr a chawsant eu cynnal drwy Microsoft Teams, gan ddefnyddio Mural i hwyluso trafodaethau ac i gasglu sylwadau a dealltwriaeth gan gyfranogwyr. Dangosir y bwrdd Mural a ddefnyddwyr ar gyfer y gweithdai yn Ffigur 1. Gwnaethom drefnu gwestiynau a gweithgareddau cysylltiedig mewn pedwar man o amgylch y bwrdd, a gallai cyfranogwyr wedyn chwyddo mewn er mwyn cymryd rhan yn y sgysiau a chyfrannu at y nodiadau cysylltiedig. Cafodd dolenni i Mural eu rhannu cyn y gweithdai, a chynhaliwyd sesiwn hyfforddi fer ar y diwrnod.

Tabl 2: Y rhai a gymerodd ran yn y gweithdai.

Cyngor Dinas Casnewydd	Partneriaeth Aber Afon Hafren
Cyngor Sir Penfro	European Subsea Cables Association
Cyngor Sir Ceredigion	Y Siambr Morgludiant
Cyngor Gwynedd	Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar
Cyngor Sir Ddinbych	Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol
Cyngor Sir Ynys Môn	Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt
Cyngor Caerdydd	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Cyngor Abertawe	Syren Shellfish Limited
Cyngor Tref Abergele	Fforwm Arfordir Sir Benfro
Ystad y Goron	Grŵp Gweithredu Lleol Pysgodfeydd (FLAG) Bae Ceredigion
Prifysgol Abertawe	Cyfoeth Naturiol Cymru
Addysgwyr llawrydd	Trigolyn lleol


Cafodd cyfranogwyr eu gwahodd i wneud nodiadau yn ystod yr ymarfer cyntaf (manylion isod), ond fel arall cafodd cofnodion pwrpasol eu gwneud o'r trafodaethau gan staff Llywodraeth Cymru. Gallai cyfranogwyr weld y nodiadau a wnaed drwy gydol y gweithdai ac yn syth wedyn, gan sicrhau bod y cofnodion yn cael eu cofnodi'r gywir. Ni chafodd y gweithdai eu recordio, a daeth unrhyw wybodaeth o nodiadau'n unig, felly ni fydd yr wybodaeth yn air am air. Defnyddiwyd cymysgedd o weithgareddau grŵp bach a gweithgareddau ar gyfer y grŵp cyfan yn ystod y gweithdy, i sicrhau bod pawb yn cymryd rhan weithredol, ac i roi amser i glywed a chofnodi profiadau pawb.

Cafodd y gweithdai eu strwythuro i gofnodi profiadau cyfranogwyr o brosiectau presennol, fel y gallwn ni nodi gwersi allweddol. Roedd hyn mewn perthynas â llwyddiannau h.y. 'yr hyn sy'n gweithio'n dda', ond hefyd i ddeall anghenion ychwanegol a allai godi yn y dyfodol a chyfyngiadau unrhyw ddulliau presennol/blaenorol. Roedd fformat y gweithdai fel a ganlyn:

- 1. Mapio'r Ddarpariaeth Bresennol** – gweithgaredd sydyn i dorri'r garw lle roedd cyfranogwyr yn gwneud nodiadau ar fap o Gymru i restru'r prosiectau a'r mentrau presennol sy'n cefnogi cymunedau arfordirol i sicrhau twf cynaliadwy ac adfer natur.
- 2. Deall Llwyddiant** – trafodaethau manwl estynedig â chyfranogwyr mewn grwpiau bach i ddeall beth sydd wedi gweithio'n dda yn eu profiadau nhw a pham.
- 3. Anghenion Ychwanegol** – trafodaethau manwl â grwpiau bach, i ddeall anghenion ychwanegol a chyfyngiadau dulliau blaenorol y mae angen eu hystyried ar gyfer cynlluniau yn y dyfodol.
- 4. Edrych tua'r Dyfodol** – trafodaeth grŵp llawn er mwyn dod â dealltwriaeth y grwpiau hyn ynghyd, gyda'r nod o syntheseiddio'r gwersi allweddol mewn

perthynas â fformat a dulliau ar gyfer cynlluniau yn y dyfodol. Cafodd trafodaeth estynedig am sut y dylid monitro ac adrodd ar gynlluniau ei chynnwys yma hefyd.

Ffigur 1: Sgrin Lun o'r Bwrdd Mural o Weithdy 1 (a oedd yn canolbwyntio ar brofiadau o Dde Cymru).



CANFYDDIADAU

YMARFER 1: MAPIO'R CAPASITI PRESENNOL

Yn ystod yr ymarfer hwn roedd y cyfranogwyr yn ysgrifennu prosiectau gwahanol ar nodiadau post-it a'u rhoi ar fap o Gymru, i ddangos gweithgaredd a chapasiti presennol. Gwnaethom ofyn y cwestiwn: 'Pa brosiectau a mentrau sy'n cefnogi cymunedau arfordirol yng Nghymru i sicrhau adfer natur a thwf cynaliadwy ar hyn o bryd?' i arwain eu hymatebion. Gymerodd y grŵp gyfan ran a defnyddiwyd y gweithgaredd i dorri'r garw ac yn gyfle i gyfranogwyr ddod i arfer â meddalwedd Mural.

Cafodd y gweithdai eu trefnu i gysylltu profiadau rhanddeiliaid yn y gogledd a'r de, ac mae gwsgariad y gweithgareddau a ddangosir yn Ffigurau 2 a 3 yn adlewyrchu hyn. Dylid pwysleisio bod y mapiau a gynhyrchwyd yn adlewyrchu profiadau'r rhai a

gymerodd ran yn y gweithdai, ac ni ddylid ystyried y gweithgaredd hwn yn ymarfer mapio cynhwysfawr.

Ynghyd a'r amrediad o weithgareddau, mae'n amlwg bod sylw da yn cael ei roi ar hyd arfordir Cymru. Mae'r prosiectau a ddangosir yn cynnwys y rhai a oedd yn canolbwyntio ar 'adfer natur' (nodiadau post-it gwyrdd) ac ar 'dwf cynaliadwy' (nodiadau post-it glas) – ond roedd rhagor o weithgareddau yn y categori cyntaf. Yn aml roedd prosiectau'n gysylltiedig â sefydliadau penodol, gan gynnwys Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt, Awdurdodau Lleol a Phartneriaethau Arfordirol a strwythurau cyffredin (e.e Ardaloedd Morol Gwarchoddedig) a oedd yn cymryd rhan mewn nifer o brosiectau. Fodd bynnag, roedd rhai enghreifftiau o bartneriaethau a phrosiectau unigryw mewn lleoliadau penodol (e.e. cynlluniau diogelu'r arfordir neu gynlluniau ynni adnewyddadwy). Yn aml mae'r ffocws ar gyfer prosiectau mewn mannau gwahanol o Gymru yn debyg e.e. gwarchod morwellt, ac yn achos morwellt mae rhwydwaith cenedlaethol, ond nid yw bob amser yn glir pa mor dda mae'r prosiectau hyn wedi'u cysylltu â'r rhwydwaith. Yn aml mae prosiectau'n cynnwys partneriaethau, ac mae'n amlwg bod set amrywiol iawn o randdeiliaid e.e. Prifysgolion, elusennau, busnesau a sefydliadau sector cyhoeddus.

Ffigur 2: Sgrin lun o Ymarfer 1 – mapio ar gyfer Gweithdy De Cymru



Ffigur 3: Sgrin lun o Ymarfer 1 – Mapio ar gyfer Gweithdy Gogledd Cymru



YMARFERION 2 a 3:

Yn y ddau ymarfer hyn gwnaethom geisio archwilio'n fwy manwl i ganfyddiadau cyfranogwyr o'r prosiectau a restrir yn Ymarfer 1, er mwyn deall yr hyn sy'n eu gwneud yn llwyddiannus, a beth arall y gall fod angen ei wneud i gyflawni'r canlyniadau a ddymunir. Roedd yr ymarferion yn cynnwys torri'n grwpiau bach er mwyn galluogi trafodaethau mewn grwpiau llai, ac i roi amser i gyfranogwyr rannu eu profiadau'n fwy manwl. Roedd rhywun yn cofnodi'r pwyntiau allweddol ar Mural, tra oedd yr hwylusydd yn gofyn y cwestiynau. Mae'r cwestiynau a ofynnwyd isod:

- Pa brosiectau/mentrau sy'n eich taro chi fel storïau o lwyddiant?
- Pa ddulliau ydynt wedi'u defnyddio?
- Beth sy'n dylanwadu ar eu llwyddiant?
- A oes angen cynnwys unrhyw un arall yn y mentrau/prosiectau a drafodwyd?
- Oes angen unrhyw beth arall er mwyn gwella'r prosiectau hyn?

Mae canfyddiadau o'r ddau ymarfer hyn yn cael eu cyflwyno yma o dan themâu trawsbynciol, a gafodd eu nodi drwy ddadansoddiad thematig o'r data amrwd:

1. Goruchwyliaeth strategol a hwyluso
2. Dulliau cydgysylltiedig/ar draws ffiniau
3. Graddfa briodol
4. Dilyniant
5. Strwythurau prosiect
6. Ymddiriedaeth
7. Cynhwysol a democrataidd
8. Arweinwyr ac anogwyr cymunedol
9. Gweld canlyniadau
10. Cyfathrebu effeithiol
11. Y prosesau cywir
12. Monitro
13. Arloesi a marchnadoedd newydd
14. Mynediad at sgiliau

Mae pob thema'n cael ei thrafod yn ei thro, gydag enghreifftiau o'r canfyddiadau a gyflwynir yn ystod y gweithdai er mwyn dangos y pwyntiau o dan sylw. Mae canfyddiadau cyfranogwyr yn cael eu haralleirio yn hytrach na dyfynnu yn uniongyrchol, oherwydd y ffordd y cafodd data ei gasglu yn y gweithdai (h.y. nodiadau yn hytrach na recordio'r gweithdai cyfan). Nid yw'r holl ddata amrwd wedi'i gynnwys yma er mwyn bod yn gryno. Roedd pob un o'r themâu a gyflwynwyd yn amlwg ar draws holl grwpiau'r gweithdy, ac yn ystod y ddau weithdy, gan ddangos eu bod yn berthnasol i bawb a gymerodd ran. Er i amrediad o brofiadau gael ei gyflwyno, a bod lefel uchel o gonsensws ar draws cyfranogwyr ynghylch yr hyn sy'n gweithio a'r hyn sydd ei angen yn y dyfodol. Cafodd llawer o bwyntiau eu hailadrodd air am air bron gan wahanol cyfranogwyr, gan ddangos yn glir brofiadau cyffredinol a nodi 'sy'rffed' o themâu h.y. hynny yw rydym wedi cyrraedd rhestr lawn na fyddai ymgysylltu'n ehangach â rhanddeiliaid tebyg yn ychwanegu ati. Er hynny, fel y nodwyd uchod, yn ddelfrydol mae angen cynnwys ymhellach rai rhanddeiliaid allweddol i sicrhau y gellir nodi unrhyw pwyntiau ychwanegol. Ni chyflwynir themâu yn nhrefn blaenoriaeth, ac maent i gyd yr un mor berthnasol. Ym aml mae themâu'n rhyng-gysylltu ac mae sylwadau rhai rhanddeiliaid yn berthnasol i fwy nag un thema, fel a ddangosir yn y canfyddiadau isod.

Goruchwyliaeth strategol a hwyluso

Nododd rhanddeiliaid angen i staff prosiectau weithredu fel hwyluswyr, gan gysylltu egni a diddordeb cymunedau ar lawr gwlad ag uchelgeisiau polisi strategol. Gwnaethant egluro hyn fel a ganlyn:

'Gall cymunedau fod yn frwd ynghylch cymryd camau, ond nid ydyn nhw o reidrwydd yn gweld y darlun strategol mwy – dyma pam mae angen swyddogion.'

'Mae llawer o brosiectau'n dechrau fel syniadau llai – gall trosolwg strategol ddod â phrosiectau llai ynghyd yn fwy effeithiol, ac mae swyddogion yn darparu cysylltiad allweddol rhwng y rheoli er mwyn cynyddu gwerth am arian cymaint ag y bo modd.'

'Mae angen swyddog prosiect sy'n gallu ymdrin â polisi a gweithredu. Mae angen iddyn nhw oruchwylio'r ddau, gan fwydo'r hyn sydd ei angen i bolisiau, ond hefyd mae angen iddynt sicrhau gweithredu ar lawr gwlad sy'n bodloni targedau strategol.'

Dadleuwyd bod hwyluso yn hanfodol yn ystod camau cynnar prosiect, er mwyn dod â chymunedau ynghyd i nod buddiannau a datblygu eu huchelgeisiau, yn ogystal â chysylltu â chronfeydd posibl efallai nad ydynt yn ymwybodol ohonynt. Nodwyd hefyd fod angen endid cyfreithiol swyddogol er mwyn gwneud cais am gyllid, ac unwaith eto mae sefydliadau cyfryngol yn allweddol:

'Mae angen hwylusydd i ddod â grwpiau ynghyd a chwrdd â phobl wyneb yn wyneb'

'Mae cyfeirio at gyllid drwy ddigwyddiadau a staff y gellir gweithredu fel llais ar lawr gwlad o fewn cymunedau yn hanfodol, gan weithio gyda'r rhain sy'n fwy anodd eu cyrraedd.'

Nodwyd hefyd y gall staff prosiect gyflawni rôl rwydweithio ddefnyddio, gan sicrhau bod cymunedau'n cael eu cysylltu â phrosiectau tebyg mewn lleoliadau eraill yng Nghymru/yn eu hardal:

'Mae pobl yn aros yn eu hardal eu hunain ac mae angen iddynt rwydweithio'n well – mae llawer o bobl yn gwneud pethau tebyg ond nid ydynt yn siarad â'i gilydd. Gellid cysylltu prosiectau tebyg ledled Cymru yn well'.

Dulliau cydgysylltiedig/ar draws ffiniau

Nododd rhanddeiliaid fod prosiectau da'n cysylltu ar draws ffiniau, boed y rhain yn ffiniau ar dir neu ar y môr neu ffiniau gweinyddol (ffiniau siroedd/cenedlaethol). Roedd hyn yn cynnwys eu dull ar gyfer cyllid a'r ymyriadau roeddent yn eu cynnal. Rhoddwyd yr enghreifftiau a'r sylwadau canlynol:

'Mae angen inni weithio ar lefel ecosystem, gan gysylltu'r tir â'r môr – er enghraifft i reoli llygredd silt o'r tir i welyau pysgod cregyn, ac ansawdd dŵr, gan ei fod yn cael ei effeithio gan ffermio a datblygu.'

'Mae'r tir a'r môr yn rhyngddibynnol; mae angen inni weithio gyda rhanddeiliaid yn y meysydd gwahanol hyn er mwyn sicrhau bod yr holl gymunedau perthnasol (e.e. ffermwyr a physgotwyr) yn cael eu cynnwys yn llawn o'r dechrau un'.

'Mae angen rhagor o ryngwyneb rhwng y tir a'r môr, er enghraifft, mae angen cydgysylltu ynghylch lle mae ceblau dan y môr ar gyfer ynni morol adnewyddadwy yn cyrraedd y tir.'

'Nid yw clustnodi cyllidebau'n gaeth yn ddefnyddiol mewn sector sy'n cynnwys pysgodfeydd, bioamrywiaeth, amaethyddiaeth, twristiaeth, treftadaeth ac ati.'

'Mae'n bosibl y bydd angen rhagor o oruchwylio ar gymunedau sy'n rhychwantu ffiniau sir neu wlad, er mwyn sicrhau bod rhanddeiliaid yn gweithio gyda'i gilydd.'

Mae'r pwyntiau hyn hefyd yn cysylltu â'r angen i weithio ar y raddfa briodol. Yn fwy cyffredinol, nododd rhanddeiliaid angen i weithio'n fwy cyfannol, er mwyn cysylltu'r holl rhanddeiliaid sy'n effeithio ar y mater dan sylw, a bod unrhyw gysylltiadau nas gwelwyd yn cael eu hystyried:

'Mae angen inni gydgysylltu adrannau ar draws cyngorau – mae angen i harbws a chymunedau siarad â'i gilydd. Ar hyn o bryd nid ydynt yn credu bod angen siarad.'

'Mae angen inni weithio gyda Siambrau Masnach mewn trefi sy'n dibynnu ar dwristiaeth er mwyn creu cysylltiadau gwell â'r ecosystemau sy'n sail i'n refeniwiau twristiaeth ni, gan ei fod yn amlwg mai cyfyngedig yw'r ystyriaeth a roddir i'r mater hwn ar hyn o bryd. Er enghraifft, defnyddwyr dŵr yn peri straen i fywyd gwyllt y môr. Mewn modd tebyg, dylid hefyd cynnwys achubwyr bywydau/meistri harbwr/clybiau cychod mewn perthynas â rheoli tarfu ar fywyd gwyllt gan gychod/cerbydau hamdden.'

Graddfa briodol

Cafodd yr angen i weithio ar raddfa briodol, sy'n berthnasol i gymunedau, ei godi mewn nifer o ffurfiau gwahanol. Yn anad dim, cafodd ei amlinellu mewn perthynas â gweithio ar raddfa a oedd yn ystyrlon i'r gymuned, ac a oedd yn eu galluogi i weithio ar faterion sy'n bwysig iddyn nhw yn y manau maent yn eu hadnabod ac yn gofalu amdanynt. Yn ddelfrydol, byddai hyn yn digwydd oherwydd bod syniadau yn dod o'r gymuned ac yn cael eu datblygu ar lawr gwlad. I'r gwrthwyneb, dadleuwyd na fyddai syniadau wedi'u datblygu y tu allan i'r gymuned yn gweithio cystal, gan gysylltu â phwyntiau ynghylch bod â phroses gynhwysol a democrataidd. Yn aml byddai hyn yn gofyn am drefniadau hwyluso da, fel y nodir uchod, i sicrhau y gallai prosiectau gysylltu â nodau a chronfeydd strategol, ond a fyddai'n seiliedig ar anghenion pobl mewn lle.

'Nid oes modd symud pob prosiect llwyddiannus i le arall.'

'Gweithiodd y syniadau oherwydd iddo ddeillio mewn cymuned, a chynnwys set amrywiol o ddefnyddwyr â buddiannau cyffredin. Roedd yn llwyddiannus oherwydd ei fod yn ymateb i anghenion amlwg yn y gymuned, a gall fod yn rhan o'r prosesau maent eisoes yn cymryd rhan ynddynt yno.'

Wrth gwrs, mae angen gwaith ar raddfa ehangach ar gyfer rhai uchelgeisiau, ac yn hyn o beth gwelwyd bod yr angen am weledigaeth ar gyfer Cymru gyfan, neu weithio rhwng prosiectau tebyg ar draws lleoliadau gwahanol. Eto, hyd yn oed ar gyfer uchelgeisiau ar lefel genedlaethol, gwelir ei bod yn hanfodol y gallai cymunedau nodi anghenion ac amcanion ar eu telerau eu hunain.

'Mae'n well os yw rhai prosiectau'n cael eu cyfuno ledled Cymru ac yn ehangach (e.e. rheoli rhywogaethau goresgynnol), ond mae rhai yn lleol. Mae angen ichi werthfawrogi'r amrediad o raddfeydd y mae'n briodol i brosiectau weithio iddynt.'

Yn olaf, gwnaed sylwadau ynghylch graddfa briodol mewn perthynas â gweithio mewn ffordd gyfannol, ar draws unrhyw ffiniau gweinyddol neu wleidyddol, er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â phroblemau mewn modd effeithiol, drwy gynnwys y bobl/ffactorau cywir. Mae hyn yn cysylltu â'r pwyntiau uchod ynghylch gweithio cydgysylltiedig

Dilyniant

Roedd yr angen am ddilyniant rhwng prosiectau yn thema amlwg iawn yn ystod trafodaethau rhanddeiliaid. Tynnwyd sylw at hyn mewn perthynas â dymunoldeb cyllid craidd neu strwythurau eraill ar waith i sicrhau y gellir cadw staff allweddol. Er nad yw'n syndod y byddai rhanddeiliaid yn ceisio rhagor o sicrwydd ariannol, roedd amcanion gwrthrychol dilyniant prosiectau yn cynnwys amrediad eang o ffactorau, gan gynnwys datblygu ymddiriedaeth a dangos ymrwymiad i gymunedau a sicrhau bod sgiliau staff a rhwydweithiau'n cael eu cadw, fel yr amlinellir isod:

'Mae dilyniant yn allweddol i lwyddiant. Mae'n galluogi prosiectau a sefydliadau i adeiladau ar fomentwm, gan rannu gwersi allweddol, ac yn sicrhau y gallai gwaith gael ei ailadrodd ar draws amrediad eang o leoliadau – gan luosi arferion da.'

'Mae angen dilyniant o ran pobl – mae'r rhai sydd â'r sgiliau, y cysylltiadau a'r profiad o'r hyn sy'n gweithio'n symud ymlaen os nad oes sicrwydd. Mae angen inni gadw'r staff â'r sgiliau a'r profiad i wneud y gwaith hwn yn effeithiol. Byddai ymrwymiad tymor hwy i ariannu prosiectau hefyd yn galluogi datblygu gyrfeydd.'

'Mae gweithio ochr yn ochr â grwpiau cymunedau yn y tymor hir yn allweddol. Mae'n cymryd amser ac adnoddau i adeiladau capasiti mewn cymunedau.'

Roedd yr angen am ddilyniant yn hyn o beth hefyd yn cael ei gysylltu â dadleuon ynghylch pwysigrwydd ymddiriedaeth rhwng staff prosiectau a chymunedau. Yn ogystal â gallu dylunio prosiectau sy'n deall anghenion y gymuned:

'Mae prosiectau allweddol yn adeiladu ar gyllid craidd sy'n cynnal gweithgareddau o fewn ardal – gan gynnal ymddiriedaeth y gymuned drwy waith ymgysylltu.'

'Mae cyllid/strwythurau craidd sefydlog yn galluogi prosiectau i ymateb i anghenion lleol yn hytrach na cheisio bodloni meini prawf cyllidwyr.'

Mae hyn yn cysylltu â phwyntiau am weithio ar y raddfa gywir, cyfathrebu effeithiol a defnyddio prosiectau democrataidd. Dadleuwyd hefyd fod gormod o bwyslais yn cael ei roi ar arloesi a gwneud rhywbeth newydd, pan fydd prosiectau presennol wedi cael pethau'n iawn, a gellid cyflwyno prosiectau o'r fath yn ehangach.

'Mae cyllid yn tueddu i gael ei roi i syniadau arloesol yn unig, ac mae hyn yn rhoi gormod o bwyslais ar arloesi. Rydyn ni'n gwybod beth sy'n gweithio, y cyfan sydd ei angen yw gwneud rhagor ohono fe.'

Strwythurau prosiect

Gan barhau â'r pwyntiau a wnaed ynghylch dilyniant, tynnodd rhanddeiliaid sylw at nifer o ddulliau gwahanol ar gyfer strwythuro prosiectau mewn ffordd a allai fynd i'r afael am yr angen am ddilyniant, hyd oed os ar gyfer y tymor roedd y cyllid. Roedd hyn yn cynnwys rhoi strwythurau tymor hwy ar waith, fel byrddau rheoli sy'n goruchwylio prosiectau unigol, neu sefydlu Cwmni Buddiant Cymunedol¹ sy'n bodoli y tu hwnt i rownd gyllido prosiectau sengl. Gall y strwythurau hyn ddarparu pwynt cyswllt parhaus ar gyfer rhanddeiliaid, gan adeiladu cysylltiadau da â'r gymuned:

'Mae'n gweithio'n dda pan fydd strwythur cryf ar waith i helpu i sicrhau bod prosiectau'n rhedeg yn ddidrafferth h.y. strwythur rheoli uwchben byrddau prosiect. Mae'n gallu sicrhau dilyniant ac adeiladu ymddiriedaeth gydag amser, gan sicrhau presenoldeb mewn cymunedau. Ni welir prosiectau fel rhywbeth untro, ond fel rhan o ymrwymiad tymor hwy.'

Roedd cyfranogwyr yn ystyried Cwmnïau Buddiannau Cymunedol yn enwedig o ddefnyddiol, am eu bod yn cael eu cynllunio i weithredu mwy fel busnesau. Mewn modd tebyg, pan oedd pobl yn gallu rhedeg mentrau fel busnes, gan gynnwys mentrau cymdeithasol a mentrau dielw, neu pan ddaw mentrau sydd eisoes yn bodoli at ei gilydd i gydweithio mewn ffyrdd newydd, yn aml roeddent yn cael eu hystyried yn fwy ariannol sefydlog. Roedd hyn o ganlyniad i gymhelliad pobl mewn cyd-destun busnes, yn ogystal â'r mynediad a roddir i ffyrddau incwm gwahanol.

'Roedd ganddyn nhw gymhelliad achos mai eu syniad nhw oedd y fenter. Pe baen nhw'n gallu rhedeg fel busnes bydden nhw'n gallu eu cynnal eu hunain heb lawer o gyllid grant pellach.

Yn yr un modd, pan fydd prosiectau'n cynnwys amrediad o grwpiau â nodau tebyg, ystyrir bod hyn yn gwella cadernid, gan fod mathau gwahanol o sefydliad gryfderau gwahanol, ac yn canolbwyntio ar yr hyn maent yn eu gwneud orau. Yn y cyd-destun hwn dywedodd rhanddeiliaid y gallai mentrau cymdeithasol leihau'r pwysau ar sefydliadau eraill, drwy arwain rhai gweithgareddau nid oedd sefydliadau eraill yn gallu eu harwain cystal, pe bai angen mwy na dull entrepreneuriaidd, a sicrhau, pe gellid bodloni anghenion mewn cyd-destun busnes, nad oedd eraill yn defnyddio eu hadnoddau i fodloni'r anghenion hyn

Er hynny, roedd awydd clir i weld rhagor o gyllid craidd i fynd i'r afael â'r angen am ddilyniant rhwng prosiectau. Roedd rhanddeiliaid yn dadlau y byddai cyllid craidd yn rhyddhau amrediad ehangach o fanteision a roedd yn anodd eu rhyddhau gyda chyllid prosiectau unigol. Roedd eraill yn dweud yn aml nad oedd marchnad ehangach ar gyfer y rôl hwyluso mae staff prosiect yn eu chwarae. Mae'n fudd cyhoeddus y dylai'r llywodraeth ei gefnogi.

¹Mae Cwmni Buddiannau Cymunedol yn gwmni cyfyngedig nad yw'n elusen, sy'n bodoli yn bennaf er budd cymuned neu gyda'r nod o geisio diben gymdeithasol, yn hytrach na gwneud elw ar gyfer cyfranddalwyr.

'Yr unig farchnad ar gyfer y gwasanaethau hwyluso hyn yw o fewn llywodraeth – mae'n anodd talu am hyn drwy brosiectau. Mae staff sy'n gwneud y gwaith hwyluso hwn yn y tymor hwy yn hanfodol er mwyn galluogi'r sail wybodaeth, cysylltiadau ac ymddiriedaeth rhwng rhanddeiliaid.'

'Mae cysylltu cyllid â phrosiectau penodol yn cyfyngu canlyniadau cadarnhaol posibl eraill y gallai sefydliadau eu cyflawni.'

Roedd eraill yn dadlau nad oedd modd i aelodau staff ymgysylltu â'r gymuned a phartneriaid allweddol yn ogystal â'u prif rôl. Roedd angen swydd neilltuedig â thâl i fynd i'r afael â'r her benodol hon.

Ymddiriedaeth

Nodwyd bod ymddiriedaeth yn nodwedd allweddol er gyfer sicrhau prosiect llwyddiannus. Mae angen i brosiectau meithrin ymddiriedaeth mewn prosiectau a phartneriaid, a rhyngddynt, ac mae hyn yn cael ei wneud yn bennaf gan staff prosiect. Mae angen i staff feddu ar sgiliau rhyngpersonol a chyfathrebu da, ond mae hefyd yn helpu pan fydd eisoes ganddynt gyfalaf cymdeithasol h.y. maent eisoes yn cael eu hadnabod ac wedi'u sefydlu o fewn cymuned. Mae sefydlu ymddiriedaeth yn golygu adnabod pobl, parchu a gwrando ar bobl a gweithio gyda nhw mewn modd cilyddol, lle mae pawb ar eu hennill. Mae meithrin ymddiriedaeth yn cymryd amser, ac roedd rhanddeiliaid yn ei gysylltu â'r flaenoriaeth y dylid ei rhoi i ddilyniant, o ystyried yr angen am gysylltiadau parhaus, hirdymor.

'Mae angen i staff feddu ar berthynas dda â phobl/grwpiau allweddol eraill. Mae angen iddyn nhw fod wedi'u sefydlu o fewn rhwydweithiau lleol/rhanbarthol. Mae bod â swyddog leol yn sicrhau hygyrchedd a bod ymddiriedaeth yn cael ei meithrin.'

'Rydych chi'n dod o hyd i rhanddeiliad drwy fod mewn cymunedau dros y tymor hir. Mae angen ichi fod yn rhan o lawer o grwpiau. Mae anodd ei egluro mewn cynigion cyllid, ond mae angen y rhwydwaith a'r wybodaeth leol honno. Mae meithrin y cysylltiadau'n cymryd amser.'

I ennill ymddiriedaeth, mae angen i staff prosiect gael eu gweld fel asiant niwtral, heb fod wedi'u cysylltu ag unrhyw agendâu penodol, cyhyd â bod hynny'n bosibl.

'Mae angen i'r hwyluswr gael ei ystyried yn ddiuedd – mae'n hanfodol ei fod yn gallu edrych ar bob safbwynt heb agenda. Mae angen iddo feddu ar y gallu i gynnal trafodaethau lle mae rhanddeiliaid wir yn teimlo bod rhywun yn gwrando arny'n nhw.'

Roedd meithrin ymddiriedaeth yn elfen hanfodol er mwyn sicrhau y gallai prosiectau gael eu arwain gan gymunedau, gan roi sylw i'r anghenion a'r buddiannau a nodir ganddynt, yn hytrach na'r hwylusydd yn ei chael yn anodd gwneud cynnydd oherwydd nad yw'n cael ei dderbyn a'i fod yn rhywbeth sydd wedi cael ei orfodi arnynt.

'Mae anodd ennyn diddordeb cymuned os yw prosiect yn cael ei orfodi arnyn nhw. Mae angen ichi wneud fel arall. Er mwyn gwneud hyn mae angen ichi fod yn fwy gweladwy yn y gymuned.'

Yr un mor bwysig oedd y dylai ymddiriedaeth, pan fydd wedi'i sefydlu, gael ei chynnal, gan y gallai gael ei cholli yn hawdd pe na bai dulliau parchus a weithredu sy'n ennyn diddordeb yn parhau:

'Roedd arfer bod lefel uchel o barch cilyddol. Mae'r parch hwnnw wedi mynd. Y wers yma yw cydnabod bod llawer o bobl yn y gymuned sydd â chymwysterau gwell ac â gwybodaeth well am amodau lleol na'r swyddogion – ac y dylen nhw geisio defnyddio'r sgiliau mewn modd cynhyrchiol, yn hytrach na'u hanwybyddu.'

Cynhwysol a democrataidd

Roedd pawb yn pwysleisio'r angen i fod mor gynhwysol ac mor ddemocrataidd ag y bo modd o ran y ffordd mae prosiectau yn gweithredu. Nid yn unig mae hyn yn 'arfer da' ym marn rhanddeiliaid, ond mae hefyd yn cyd-fynd â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015), gan ddarparu rhagor o ysgogiad i gyflawni'r amcanion hyn. I wneud hyn, dywedodd cyfranogwyr ei bod yn bwysig cynnwys amrediad mor eang â phosibl o bobl a gwranddo arnynt, achos:

'Cymunedau sydd yn y lle gorau i nodi a blaenoriaethu eu hanghenion eu hunain.'

Mae bod yn gynhwysol yn golygu bod angen deall cyfansoddiad y gymuned a sicrhau bod pob grŵp yn cael ei gynrychioli'n iawn. Efallai y bydd yn fwy anodd ennyn diddordeb rhai grwpiau, ond mae angen ymdrech i ddarparu llwybrau er mwyn cynnwys pobl wahanol.

'Mae angen rhagor o amrywiaeth h.y. cynrychioli Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig drwy gymryd rhan ac arwain.'

'Mae'n bwysig rhoi llais i bobl ifanc nad oes ganddynt lawer o sianeli eraill i drafod syniadau ynghylch eu cymuned. Yn aml maen nhw'n cael eu tangynrychioli ac maen nhw'n llai hyderus mewn fforymau traddodiadol, felly mae angen ystyried ffyrdd gwahanol iddyn nhw gymryd rhan.'

Wedyn mae angen i'r broses benderfynu fod yn gydweithiol ac yn ddemocrataidd hefyd. Gallai sicrhau hyn drwy sefydlu bwrdd llywio ac iddi aelodaeth helaeth a/neu sicrhau partneriaeth lawn gyda'r broses benderfynu'n cael ei sefydlu ar draws pob sefydliad/grŵp. Neu drwy grŵp cymunedol yn cyflwyno syniadau ar gyfer prosiectau, yn hytrach na phenderfyniadau prosiect yn cael eu gwneud rywle arall ac yn cael eu gorfodi ar gymuned. Y peth pwysicaf yw gwneud yn siŵr y gall pobl deimlo eu bod wir yn dylanwadu ar gyfeiriad prosiectau. Mae gweithio yn y ffordd hon wedyn yn golygu y gallwch feithrin ymddiriedaeth.

'Mae llwyddiant yn dibynnu ar y graddau mae pobl leol yn cymryd rhan yn teimlo eu bod yn cael eu parchu, eu bod yn bwysig a bod pobl yn gwranddo arnyn nhw.'

'Mae angen trin pob un o'r partneriaid yn gyfartal, a chynnal trafodaethau llawn a manteisio ar eu profiad – gan osgoi rhagnodi beth fydd y prosiect yn ei wneud, ond ei ddatblygu ar y cyd'.

Arweinwyr cymunedau ac anogwyr

Roedd llawer o'r trafodaethau'n canolbwyntio ar ysgogi pobl o fewn y gymuned a phwy mae angen gweithio gyda nhw er mwyn gwneud i bethau ddigwydd. Mae rôl staff prosiect fel hwyluswyr allweddol eisoes wedi cael ei thrafod, ynghyd â'r amrediad o nodweddion defnyddiol y gellir cysylltu â'r bobl hynny. Yr un mor bwysig yw'r arweinwyr ac anogwyr hynny o fewn cymuned nad ydynt o reidrwydd yn derbyn tâl gan y prosiect. Ystyrid bod nodi'r aelodau dylanwadol hyn o'r gymuned yn allweddol i ennyn diddordeb eraill. Yn aml roedd y bobl hyn yn cael eu disgrifio fel 'symudwyr ac siglwyr' a phobl y byddai'n 'anodd dweud "na" wrthynt'.

'Mae angen yr unigolyn iawn i fod yn gyfrifol ac arwain, rhywun uchel iawn ei barch a rhywun sy'n ysgogi eraill y mae'n anodd dweud na wrtho fe!.

Mae meithrin a chwilio am arweinwyr o'r fath yn gallu arwain at annog rhagor o bobl i gymryd rhan, oherwydd cysylltiadau cadarnhaol â gweithgareddau'r unigolyn hwnnw, a'r bwrlwm cymdeithasol wrth i gymunedau 'dod ynghyd'. Mae hyn yn arbennig o bwysig er mwyn cysylltu â grwpiau ac unigolion 'mwy anodd eu cyrraedd' na fyddai ganddynt diddordeb fel arall.

'Mae cynnwys y gymuned a phawb yn gweithio gyda'i gilydd yn gallu arwain at ganlyniadau da'.

Yn hanfodol, nid oedd yr arweinwyr hyn o reidrwydd y rheini mewn rolau arweiniol traddodiadol mewn cymuned e.e. cynrychiolwyr gwleidyddol/a'r rheini mewn rolau swyddogol.

'Gall arweinwyr ddod o'r manau arferol ond hefyd o fannau annisgwyl. Er enghraifft, mae mam â phlant sy'n cymryd rhan ac sy'n frwd dros materion penodol yn gallu chwarae rôl hanfodol, gan gynnwys sicrhau cefnogaeth cynghorau ysgol'.

Er hynny, cydnabuwyd yn glir fod angen cefnogaeth gredadwy ar gyfer capasiti gwirfoddoli. Hyd yn oed pan fydd y bobl gywir yn arwain prosiect, mae angen gwell cydnabod yr ymrwymiad amser sydd ei angen ar gyfer llawer o brosiectau. Er mwyn meithrin arweinwyr y dyfodol, ac i sicrhau y gall cymunedau ehangach gymryd rhan, mae angen ystyried ymhellach gefnogi diwylliant o wirfoddoli:

'Mae angen hyrwyddo gwirfoddoli ymhellach er mwyn sicrhau demograffig mwy amrywiol. Fel arfer y genhedlaeth hŷn, nad oes ganddyn nhw gyfyngiadau amser sy'n gwirfoddol. Mae angen inni gwella ein diwylliant gwirfoddol – efallai drwy mentrau yn y gweithle a chyllid i neilltuo amser pobl.'

Gweld Canlyniadau

Trafodwyd 'gweld canlyniadau' yng nghyswllt sut rydym yn gallu cefnogi dinasyddiaeth weithgar yn well. Yn hyn o beth cydnabuwyd, er mwyn datblygu capasiti cymunedau i wirfoddoli a chymryd rhan mewn gwahanol fentrau, fod angen gwobrau clir er mwyn cadw diddordeb pobl. Os nad yw pobl yn gweld canlyniadau, neu os oes gormod o rwystrau, gallent golli eu brwdfrydedd yn gyflym.

'Nid oes modd prynu brwdfrydedd, ond mae'n bosibl ei ddifetha drwy ddiffyg cefnogaeth effeithiol. Y gweithredu ar lawr gwlad a gweld canlyniadau sy'n ennyn diddordeb pobl.'

'Roedd pawb wrth eu bodd yn cael bod yn rhan o brosiect mor wych. Cynyddodd y momentwm ar ôl iddyn nhw weld llwyddiant.'

Ar y cyfan, y prif ysgogiad a nodwyd oedd gweld canlyniadau pendant a buddion clir yn deillio o'u gweithgareddau. Ond roedd hyd yn oed canlyniadau mor syml â chael hwyl gyda'i gilydd a bod yn greadigol yn cael eu hystyried yn bwysig.

'Roedd yn dda achos bod yr holl gymuned yn cymryd rhan mewn gwneud rhywbeth llawn hwyl gyda'i gilydd, ac roedden nhw'n gallu gweld rhywbeth ar waith.'

'Mae creadigrwydd yn bwysig er mwyn ysgogi'r gymuned, ac mae'n gallu annog ac ennyn diddordeb.'

Roedd gwireddu manteision ar gyfer cyfranogwyr gwahanol prosiect yn cael ei ystyried yn allweddol i gynnal y gweithgareddau yn y tymor hir. Pe bai pobl yn gweld buddion clir, bydden nhw'n parhau â'r gweithgareddau dan sylw. Yr un mor bwysig, drwy wneud canlyniadau'n bersonol a galluogi pobl i gysylltu'n fwy dwfn, gallent gymryd rhagor o gyfrifoldeb am weithgareddau prosiect gwahanol. Er enghraifft, gyda gwyddoniaeth dinasyddion yn monitro rhannau o'r arfordir (e.e. am fywyd gwylt y môr) nodwyd y byddai cymunedau'n gyfrifol am eu rhan eu hunain o'r arfordir, ac yn arwain arolygon:

'Oherwydd eu bod yn gweld effeithiau cadarnhaol iddyn nhw, ac yn gallu gweld y ffordd mae eu hamgylchedd yn newid gydag amser drwy'r monitro, mae hyd wedi arwain at ragor o ymrwymiad a brwdfrydedd.'

I sicrhau bod pobl eraill yn cael eu cynnwys, nododd rhanddeiliaid bwysigrwydd ystyried amrediad eang o fanteision y gallai cynulleidfaoedd gwahanol gysylltu â nhw. Mae cynnal prosiectau sy'n cynnwys amrediad o wahanol weithgareddau sy'n apelio at gynulleidfaoedd felly yn hanfodol er mwyn cynnwys pobl mewn ffordd gadarnhaol.

Cyfathrebu effeithiol

Roedd pawb o'r farn bod cyfathrebu da yn hanfodol er mwyn i brosiect llwyddo. Roedd hyn yn cynnwys amrediad o bwyntiau. Yn gyntaf, roedd cyfathrebu â'r

gymuned a rhanddeiliaid allweddol yn holl bwysig er mwyn galluogi proses gynhwysol a democrataidd, a datblygu'r ymddiriedaeth rhwng pobl a oedd hefyd yn cael eu hystyried yn hanfodol er mwyn llwyddo. Gallai cyfathrebu yn hyn o beth fod mewn nifer o ffyrdd. Nid oedd rhaid iddo fod yn berson bob amser, ac mae dulliau ar-lein wedi cael eu defnyddio'n llwyddiannus yn y flynyddoedd diwethaf, gan gyfathrebu â rhan arall o'r gymdeithas i'r rhai sydd am ddod yn berson. Yn ôl pob golwg, sicrhau bod swyddogion prosiect/cydgysylltwyr ar gael i ateb cwestiynau a chymryd rhan mewn deialogau oedd y ffactor mwyaf pwysig, ni waeth beth yw'r dull cyfathrebu.

'Bod yn weladwy i'r cymunedau sy'n gael eu gwasanaethu neu sy'n gysylltiedig â'r prosiect sydd ei angen.'

Gwnaed nifer o bwyntiau ynghylch y potensial ar gyfer camgyfathrebu a chamwybodaeth, a all arwain at wrthwynebiad. Pwysleisiwyd mai capasiti staff oedd y brif ffordd ar gyfer mynd i'r afael â hyn, gan ddarparu llawer o gyfleoedd i bobl gymryd rhan yn y ffordd orau iddyn nhw. Nodwyd, er enghraifft, nad yw cyfarfodydd cyhoeddus bob amser yn rhoi'r un cyfle i bawb siarad, ac felly mae'n bwysig cynnig dulliau cyfathrebu gwahanol.

Maes arall lle y nodwyd anawsterau cyfathrebu oedd cyfathrebu rhwng cyllidwyr a phrosiectau/grwpiau cymunedol. Roedd profiadau blaenorol gyda FLAGS (Grwpiau Gweithredu Lleol Pysgodfeydd), er enghraifft, wedi arwain at randdeiliaid yn pwysleisio'r angen am fynediad gwell ar swyddogion y llywodraeth a oedd yn gweinyddu'r cyllid, fel y gallent dderbyn cymorth parhaus gwell i ddeall yr hyn y caent ei wneud/na ddylent ei wneud o fewn paramedrau'r cyllid.

'Mae angen i gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru fod yn fwy ar gael, a chadw sianeli cyfathrebu ar agor drwy gydol y prosiect. Mae teimlad bod cyfathrebu'n unffordd iawn h.y. gall swyddogion gysylltu â ni yn hawdd iawn ond dim fel arall.'

'Mae cyfathrebu'n anodd. Dwedir wrthon ni fod angen cyfathrebu drwy'r porth ar-lein, ond mae'n cymryd llawer o amser i drefnu mynediad ac yn aml nid yw'n gweithio Pam nad oes rhifau ffôn ar gyfer staff Llywodraeth Cymru yn aml?'

Yn olaf, dadleuwyd bod angen cyfathrebu â'r cyhoedd ehangach, er mwyn dathlu llwyddiannau prosiectau, gan annog rhagor o ddiddordeb, a chodi proffil materion morol ac arfordirol yn ehangach. Gwnaed un awgrym nodedig i godi proffil materion morol ac arfordirol:

'Beth am gynnal Sioe Forol ac Arfordirol – yn gyfatebol i Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru – i ddenu twristiaid, preswylwyr a datblygwyr? Mae gennyn ni 'Wythnos Pysgod', ond mae angen inni gynnwys trawstoriad cyfan o randdeiliaid, nid mewn perthynas â bwyta bwyd môr yn unig, ond ecosystemau morol ehangach. Byddai'n ffordd wych o godi ymwybyddiaeth (llythrennedd morol) ond hefyd fel plattform ar gyfer rhoi gwybod i gymunedau am bolisi a chyllid, fel bod pawb yn deall y blaenoriaethau a'r cyfleoedd presennol.'

Y prosesau cywir

Bu llawer o drafod ynghylch prosesau cyllido, gweinyddu a'r monitro cysylltiedig. Hoffai rhanddeiliaid i'r prosesau hyn fod mor syml a didrafferth ag y bo modd. Er bod cyfranogwyr yn cydnabod y byddai bob amser rywfaint o fiwrocratiaeth wrth ymdrin â chyllid cyhoeddus, dylid sicrhau ei bod cyn lleied ag y bo modd. Rhoddwyd enghreifftiau o pan oedd hyn wedi gweithio'n dda, gan ddangos beth allai'r 'prosesau cywir' fod. Roedd y rhain bob amser yn adlewyrchu egwyddor graidd bod yn syml ac yn hawdd eu gweithredu, gan alluogi diwallu angen heb gymhlethdod a manylion diangen. Roedd hyn yn golygu bod cronfeydd bach a chronfeydd 'sbarduno' yn arbennig o boblogaidd, gan eu bod yn gofyn am lai o fanylion ac yn galluogi mynd i'r afael â set benodol o anghenion e.e. mynediad i ddŵr i'r anabl, heb yr angen i gyflwyno cais hir.

Nodwyd hefyd y gallai amserlenni ar gyfer gwneud cais am gyllid fod yn fwy realistig, gyda rhagor o gymorth yn cael ei gynrig i ddatblygu prosiectau mwy uchelgeisiol:

'Mae grantiau'n cael eu hysbysebu ag amodau hurt, h.y. amserlenni byr ar gyfer symiau mawr o arian, fel nad oes amser ystyried cynnig yn drwyadl cyn ei gyflwyno. Os ydych am gyhoeddi grantiau ag amserlenni byr, dylid gostwng y gwariant isaf. Neu, os mai grantiau ag amserlenni byr yw'r norm newydd, yna dylid trefnu i grantiau galluogi fod ar gael fel y gellir gwneud y gwaith paratoi i ategu grantiau ag amserlenni byr'

Ochr yn ochr â'r broses ymgeisio, dwedwyd bod adrodd a monitro'r un mor bwysig o ran bod yn feysydd allweddol i'w rhesymoli. Eto, er bod yr angen i werthuso ac adrodd ar wario arian cyhoeddus, roedd rhanddeiliaid yn teimlo bod angen i hyn fod yn fwy cymesur o ran y pwysau ar amser ac adnoddau.

'Rydyn ni'n deall yr angen i gyfrif am wario arian cyhoeddus, ond roedd rhaid inni dalu £10k i ymgynghorwyr annibynnol am adroddiad gwerthuso nad oedd yn dweud unrhyw beth wrth y grŵp nad oedden nhw'n gwybod eisoes – gallen ni fod wedi gwario'r arian hynny yn well ar bethau eraill, mae angen canolbwyntio ar gynnal y prosiectau.'

Roedd llawer o randdeiliaid yn teimlo hefyd nad oedd gwerthusiadau'n cael eu defnyddio yn y ffordd orau, gan nad oes gan neb y capasiti i ddarllen a dysgu o'r adroddiadau hyn. Mewn ymateb, teimlwyd y gellid creu cronfa ddata fwy defnyddiol o werthusiadau prosiect, a fyddai'n cefnogi rhannu rhagor o ddysgu ac yn sicrhau y gallai prosiectau newydd gyfeirio'n fwy llawn at brofiadau blaenorol.

'Yn aml nid yw gwerthusiadau ac adroddiadau'n cael eu darllen yn drwyadl – maen nhw'n cael eu rhoi o'r neilltu mewn ffeiliau. Mae angen porth canolog ar gyfer prosiectau unigol, er mwyn casglu gwybodaeth i alluogi rhannu a dysgu.'

Monitro

Codwyd pwyntiau ynghylch sut i fonitro'r ffordd mae prosiectau'n cysylltu â materion ehangach, mewn perthynas â bod â'r prosesau gweinyddol cywir ar waith.

Dadleuodd cyfranogwyr fod rhaid i fonitro fod yn gymesur, ond rhaid iddo hefyd fod yn ddefnyddiol i'r prosiect. Mae hyn yn agwedd wahanol iawn i weld gwerthuso fel rhywbeth ar gyfer cyllidwyr yn unig. Yn wir, roedd rhanddeiliaid am i fonitro fod yn rhywbeth a fyddai'n fuddiol iddyn nhw, sy'n cefnogi diwylliant ehangach o ddysgu yn y maes hwn.

Ystyriaeth hanfodol oedd nid yn unig yr hyn y dylid ei fonitro ond sut? Er enghraifft, ystyrir bod lefelau o gyfranogi yn elfen allweddol mae prosiectau'n ceisio eu mesur. Ond eglurodd staff prosiect nad oeddent am fonitro pobl hyd syrffed, gan fod hyn yn eu gwneud yn anfodlon gwirfoddoli a chymryd rhan. Felly, efallai y byddai'n briodol dod o hyd i ffyrdd gwahanol o fonitro, er mwyn casglu profiadau pobl yn well, yn hytrach na gosod set benodol o feini prawf adrodd. Bu trafodaethau hir am ddulliau ansoddol a chreadigol yn hyn o beth. Gofynnodd eraill:

'Pam rydyn ni'n monitro? A yw cyllidwyr yn ymddiried yn y prosiectau? Mae manteision prosiectau cymunedol eisoes wedi cael eu profi. Beth am fesur yr hyn mae gwir angen ei fesur?'

Trafodwyd monitro'n fanylach yn Ymarfer 4 i gael cyngor manylach ynghylch sut y gellid gwella hyn yn y dyfodol.

Arloesi a marchnadoedd newydd

Mae cysylltu ag entrepreneuriaeth ac arloesi yn bwysig er mwyn sefydlogrwydd ariannol. Nid oes gan bob syniad prosiect allbwn busnes perthnasol, ond roedd gan lawer o'r enghreifftiau a drafodwyd yn y gweithdai gysylltiadau ag entrepreneuriaeth. Gall gweithio drwy sianelu busnes alluogi mynediad at amrywiaeth ehangach o gyllid a darparu adnoddau parhaus, a allai fel arall fod wedi'u cyfyngu gan gylchoedd cyllido.

Trafodwyd nifer o enghreifftiau da o gynhyrchion a gwasanaethau y gellir eu marchnata, o ehangu mynediad cymdeithasol i hamdden morol, drwy gyfleoedd ar gyfer ynni gwyrdd a bioeconomi. Roedd pobl o'r farn hefyd fod gweithio mewn ffordd fwy cynaliadwy, er enghraifft drwy fabwysiadu egwyddorion economi cylchol, yn arwain at syniadau busnes newydd.

Gwahaniaeth allweddol ar gyfer yr holl syniadau arloesol a'r holl fentrau a drafodwyd oedd eu man cychwyn, gyda rhanddeiliaid lleol naill ai yn gweithredu'n bersonol ar faterion sy'n effeithio ar eu bywydau, neu aelodau o'r gymuned yn dod at ei gilydd i godi gofynion a allai weithio ar draws trawstoriad o bobl leol. Yn y ffordd hon, mae bod â dull cynhwysol sydd wedi'i sefydlu'n dda ar waith yn dda nid yn unig ar gyfer democratiaeth, ond mae'n gallu galluogi pobl i ddiwallu eu hanghenion drwy ddefnyddio syniadau arloesol y farchnad pan fydd hynny'n briodol.

Yr ymrwymiad parhaus gan bobl, pan fyddant wedi ymrwymo i syniadau busnes arloesol a phartneriaethau busnes, oedd mantais nodedig arall cysylltu â gweithgareddau entrepreneuriaidd. Fel y nodwyd uchod gall hyn weithio'n arbennig o

dda pan fydd amrywiaeth o sefydliadau'n dod ynghyd o amgylch 'hyb' neu gysniad craidd, gan gyflwyno cryfderau a galluoedd gwahanol.

Mynediad at sgiliau

Cafodd dwy agwedd ar sgiliau eu trafod: Yn gyntaf, pa sgiliau sydd eu hangen er mwyn llunio prosiectau llwyddiannus, ac o ble gallwch gael y sgiliau hynny? Yn ail, sut y gall prosiectau gefnogi darparu sgiliau?

Mewn perthynas â chefnogi datblygu prosiectau, roedd trafodaethau'n canolbwyntio ar gynnwys amrediad o bartneriaid. Er enghraifft, cynnwys y prifysgolion a chysylltu â busnesau (gan gysylltu â'r pwyntiau a wnaed uchod). At ei gilydd cydnabuwyd bod gwahanol grwpiau'n gallu dod ag arbenigedd gwahanol, ac yn aml mae angen eu cynnwys i gyd er mwyn i brosiect lwyddo. Mae hyn yn cysylltu â bod â phroses ddemocrataidd effeithiol ar waith. Pwynt arall yn hyn o beth oedd pwysigrwydd 'sgiliau mwy meddal' sydd wedi cael eu trafod o dan benawdau eraill, galluogi meithrin ymddiriedaeth, hwyluso, cydlyniant cymunedol, rheoli prosiectau a llywodraethu. Roedd cyfranogwyr o'r farn bod datblygu a gwobrwo'r sgiliau allweddol hyn yn holl bwysig.

O ran effeithiau prosiect, dadleuwyd pan fydd gweithgareddau datblygu'n cael eu cynnal fod angen i'r gweithlu dderbyn hyfforddiant priodol er mwyn gwasanaethu'r diwydiannau hyn. Nododd rhanddeiliaid nifer o gyfleoedd lle roedd hyn wedi cael ei wneud yn dda yn y gorffennol, gan ddweud bod hyn yn flaenoriaeth ar gyfer y dyfodol. Yma y ddadl oedd bod angen mwy na chronfa datblygu ar gymunedau, i'w gwario ar gyfleusterau neu weithgareddau er enghraifft. Yn hytrach, mae angen i bobl lleol fod â mynediad at y sgiliau sydd eu hangen er mwyn elwa'n uniongyrchol ar fentrau a buddsoddiadau newydd, er enghraifft ym meysydd seilwaith ac ynni morol adnewyddadwy.

YMARFER 4

Yn yr ymarfer olaf, daeth yr holl grŵp at ei gilydd ar gyfer sesiwn lawn. Gofynnwyd i'r grwpiau syntheseiddio'r pwyntiau allweddol presennol a godwyd yn eu trafodaethau grŵp llai, yr oeddent am iddynt dderbyn sylw pellach, er mwyn darparu rhestr gryno o ganllawiau allweddol yn adlewyrchu ymdeimlad o gytundeb gan bob cyfranogwyr mewn perthynas â'u profiadau a'u dysgu.

Roedd y cwestiynau a gafodd sylw yma yn cynnwys:

- Pa ddulliau sy'n sicrhau llwyddiant prosiectau?
- Pwy sydd angen cymryd rhan wrth edrych tua'r dyfodol?
- Pa gymorth sydd ei angen ar brosiectau/rhanddeiliaid?
- Sut y dylid monitro prosiectau?

Mae'r rhestr derfynol o 'wersi' wedi cael eu llunio fel set gryno o ganllawiau a gyngor, fel y **dangosir yn y crynodeb gweithredol**. Cafodd y gwersi a restrwyd yn y

gweithdy eu croesgyfeirio wedyn yn erbyn y dadansoddiad thematig o Ymarferion 2 a 3 (fel y dangoswyd uchod) i sicrhau nad oedd unrhyw faterion allweddol o'r trafodaethau cynnar hynny'n cael eu hepgor, neu nad oedd gormod o bwysau wedi cael ei roi ar rywbeth yn y sesiwn gyda'r holl grwpiau nad oedd wedi cael ei godi'n flaenorol. Ar sail hyn, cafodd rhestr derfynol o ganllawiau prosiect ei llunio, gan gynnig dealltwriaeth ar gyfer y rhai oedd am ymgymryd â phrosiectau yn y dyfodol, ond hefyd ar gyfer cyllidwyr a swyddogion llywodraeth sy'n ceisio cefnogi gweithgareddau adeiladu capasiti.